

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
87/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/12/2024

Canlyniadau arolwg adborth y Rhaglen Clwstwr Allforio

Canlyniadau arolwg adborth y Rhaglen Clwstwr Allforio

Awdur: Mair Smith

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhaglen-clwstwr-allforio-arolwg-adborth-cyfranogwr>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Mair Smith

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000250958

E-bost: Ystadegau.Masnach@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	1
Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	2
Crynodeb gweithredol.....	3
1. Cyflwyniad	6
2. Methodoleg	8
3. Canfyddiadau: Ymgysylltu.....	12
4. Canfyddiadau: Boddhad.....	17
5. Canfyddiadau: Effaith.....	25
6. Casgliadau	34

Rhestr o dablau

Tabl 1. Ymateb arolwg fesul clwstwr.....	10
--	----

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Hyd aelodaeth clwstwr	11
Ffigur 2: Profiad allforio'r busnesau a ymatebodd.....	11
Ffigur 3: Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Clwstwr Allforio.....	12
Ffigur 4: Canfyddiadau aelodau newydd o'r Rhaglen Clwstwr Allforio	13
Ffigur 5: Rhwystrau rhag cyfranogiad yn y Rhaglen Clwstwr Allforio	14
Ffigur 6: Boddhad â Rheolwyr Clwstwr	17
Ffigur 7: Dealltwriaeth Rheolwyr Clwstwr o anghenion busnes yn ôl clwstwr	18
Ffigur 8: Boddhad â gweithgareddau clwstwr	19
Ffigur 9: Effeithiolrwydd digwyddiadau, ffocws, cyngor a rhwydweithiau clwstwr.....	20
Ffigur 10: Defnyddioldeb busnesau eraill o fewn clystyrau fel y canfyddir gan aelodau.....	22
Ffigur 11: Canlyniadau ac effeithiau'r Rhaglen Clwstwr Allforio i fusnesau.....	25
Ffigur 12: Disgwyliadau a buddion o ran y Rhaglen Clwstwr Allforio	27
Ffigur 13: Canlyniad mwy o hyder i allforio yn ôl aelodaeth clwstwr	29
Ffigur 14: Canlyniad mwy o hyder i allforio yn ôl maint busnes.....	29
Ffigur 15: Mwy o hyder i allforio, yn ôl profiad allforio'r busnes sy'n ymateb.....	30
Ffigur 16: Mwy o hyder i allforio yn ôl amser a dreuliwyd yn cymryd rhan yn y Rhaglen Clwstwr Allforio.....	31
Ffigur 17: Tebygolrwydd aelodau o argymell y Rhaglen	31

Crynodeb gweithredol

- i. Mae'r [Rhaglen Clwstwr Allforio](#) (2021-2024) yn elfen allweddol o [Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio](#) Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Clwstwr Allforio (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Rhaglen') yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu cynnydd ym mherfformiad allforio cwmnïau sydd o fewn pum sector allforio blaenoriaeth i Gymru – Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân, Cynhyrchion Defnyddwyr, Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Technoleg Feddygol a Thechnoleg. Mae'r Rhaglen yn darparu cyfuniad o gymorth un-i-lawer ac un-ac-un i aelodau'r clwstwr a ddyluniwyd yn benodol i wella eu galluoedd a'u capasiti allforio yn ogystal â'r cyfle i gydweithio ag aelodau eraill i greu rhwydweithiau, grwpiau arbenigol a chymorth mentora rhwng cymheiriaid.
- ii. Cafodd y Rhaglen ei chontractio i dri chyflenwr (partneriaid cyflenwi) o fis Hydref 2021 am dair blynedd gyda'r cynnig i ymestyn hynny am bedwaredd flwyddyn hyd at ddiwedd mis Hydref 2025. Chwaraeodd adborth yr Arolwg ran bwysig yn y penderfyniad cyffredinol i dderbyn yr estyniad i bedwaredd flwyddyn.
- iii. Yn 2024, fe wnaeth Tîm Masnach Llywodraeth Cymru roi'r dasg i gydweithwyr yn y Tîm Dadansoddi Masnach ymgymryd â phrosiect ymchwil ar raddfa fach i gasglu adborth gan fusnesau sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen. Nod yr ymchwil oedd casglu tystiolaeth i ddangos a deall yn well effeithiolrwydd ac effeithiau'r cymorth a roddwyd i fusnesau drwy'r Rhaglen.
- iv. O ganlyniad, datblygwyd arolwg ar-lein i grisialu tystiolaeth feintiol ac ansoddol. Dosbarthwyd yr Arolwg trwy e-bost i 215 o fuddiolwyr busnes y Rhaglen ym mis Mai a mis Mehefin 2024. Cafwyd cyfradd ymateb o 36%. Roedd yr Arolwg a'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar fusnesau a fu'n aelodau o'r Rhaglen am saith mis neu ragor (y cyfeirir atynt fel 'aelodau sefydledig') gan yr ystyriwyd bod angen yr amser hwn ar fusnesau i ymgysylltu'n ystyrlon (roedd yr ymatebion hyn yn 31% o gyfanswm yr aelodaeth).
- v. Roedd y canlyniadau'n dangos boddhad eang â'r Rhaglen, gan gynnwys canfyddiadau cychwynnol cadarnhaol gan aelodau newydd (yn cymryd rhan am chwe mis neu lai). Dangosodd yr ymatebion foddhad eang â Rheolwyr Clwstwr a'r gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt, yn ogystal â'r modd y darparwyd digwyddiadau a chyngor.

- vi. Ar draws holl gwestiynau'r arolwg, nododd llai na phum ymatebydd anfodlonrwydd neu faterion/anawsterau gyda'r Rhaglen ac roedd y rhain wedi'u dosbarthu ar draws clystyrau (yn hytrach na'u crynhoi mewn un). Fodd bynnag, rhoddwyd cyfran sylweddol o ymatebion difater i nifer o wahanol ddatganiadau ynghylch boddhad, effaith ac effeithiolrwydd. Mae sylwadau gan rai ymatebwyr yn awgrymu mai esboniadau posibl am hyn oedd: ymgysylltu prin â'r Rhaglen hyd yma ac oedi amser cyn gwireddu buddion wrth i aelodau ddechrau ar strategaethau datblygu allforio tymor hwy.
- vii. Unig rwystr llawer o ymatebwyr rhag cyfranogi oedd eu cyfyngiadau adnoddau eu hunain. Mae'n bwysig ystyried hyn wrth ragweld lefelau cyfranogi a chynllunio digwyddiadau yn y dyfodol, yn benodol eu fformat a'r rhybudd a roddir ymlaen llaw. Mae'r dull hybrid o drefnu digwyddiadau/gweithgareddau clwstrw a ddarperir ar hyn o bryd gan rai clystyrau yn fuddiol wrth geisio lleihau'r baich ar fusnesau tra hefyd yn caniatáu cyfleoedd i rwydweithio wyneb yn wyneb, a werthfawrogwyd gan rai aelodau.
- viii. Nid oedd pob aelod yn cytuno bod busnesau eraill yn eu clwstrw yn ddefnyddiol i ymgysylltu â nhw. Yn gysylltiedig â hyn, nodwyd 'perthnasedd digwyddiadau a gweithgareddau' fel rhwystr rhag ymgysylltu â'r Rhaglen gan ychydig dros ddwy ran o bump o fusnesau. Felly, mae cydbwysu'r penodoldeb a'r gwahaniaethau mewn marchnadoedd, cynhyrchion a statws/profiad allforio busnesau yn her allweddol ac yn her a oedd fel petai'n berthnasol i bob clwstrw.
- ix. Dangosodd y canlyniadau lefelau cymharol wahanol o ymgysylltu a boddhad â gwahanol weithgareddau gan aelodau ar draws y pum clwstrw unigol. Mae'r gwahanol ganfyddiadau a ddangoswyd gan ymatebwyr clystyrau gwahanol yn atgyfnerthu'r angen i'r Tîm Masnach ystyried y canlyniadau ar sail clwstrw a'u defnyddio i lywio anghenion a chyfeiriad pob clwstrw yn unigol. Roedd dadansoddiad ar wahân fesul clwstrw y tu hwnt i gwmpas dibenion yr adroddiad hwn. O'i dadansoddi fesul clwstrw, nid oedd y gyfradd ymateb ychwaith yn ddigonol ar gyfer dadansoddiad pellach a gallai fod wedi bod yn ddadlennol.
- x. Bu'r Rhaglen o'r budd mwyaf eang i fusnesau o ran hyder i allforio, gyda hanner yr ymatebwyr yn nodi cynnydd. Dywedodd bron i ddwy ran o bump o'r ymatebwyr fod y Rhaglen wedi eu cefnogi i nodi cyfleoedd newydd yn y farchnad ac i wella eu strategaethau allforio. Yn y cyfamser, soniodd tua un rhan o bump am sgiliau a gallu cynyddol i allforio, yn ogystal â datblygu partneriaethau masnachol newydd oherwydd

y Rhaglen. Byddai ymchwil dilynol, ymhellach i'r dyfodol, mewn sefyllfa well i nodi canlyniadau ac effeithiau tymor hwy, pan fydd busnesau wedi cael mwy o amser i sylweddoli manteision y cymorth.

- xi. Wrth symud ymlaen byddai fersiynau o'r Rhaglen yn y dyfodol yn elwa ar weithredu proses casglu tystiolaeth yn fwy systematig. Dylai hyn gyfuno arolygon a dadansoddiad o ddata monitro ag amserlen o gasglu data ansoddol (gan gynnwys ymgynghori â phartneriaid cyflenwi) wrth leihau'r baich ar fusnesau. Dylid gweithredu fframwaith monitro a gwerthuso a gynlluniwyd yn strategol ochr yn ochr ag unrhyw fersiynau o'r Rhaglen yn y dyfodol, a chydgysylltu hyn â rhaglenni Cymorth Allforio ategol.

1. Cyflwyniad

1.1 Yn nechrau 2024, gofynnodd Tîm Masnach Llywodraeth Cymru i gydweithwyr yn y Tîm Dadansoddi Masnach am eu cymorth a'u harbenigedd wrth ymgymryd â phrosiect ymchwil i gasglu adborth gan fusnesau oedd yn cymryd rhan yn y [Rhaglen Clwstwr Allforio](#) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Rhaglen'), sef elfen allweddol o [Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio \(ExAP\)](#) Llywodraeth Cymru. Y nod oedd casglu tystiolaeth i ddeall effeithiolrwydd ac effeithiau'r cymorth a ddarperir i fusnesau drwy'r Rhaglen. Y diben yn y pen draw oedd llywio argymhellion ar gyfer yr opsiwn o ymestyn y Rhaglen i bedwaredd flwyddyn a dylunio/darparu cymorth allforio o'r fath i fusnesau yng Nghymru yn y dyfodol.

Cefndir y Rhaglen

- 1.2 Mae'r Rhaglen yn un o gyfres o fentrau cymorth allforio a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio. Mae'r Cynllun hwnnw, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i "gynorthwyo busnesau i adfer ac ailadeiladu eu hallforion ac addasu i unrhyw brosesau a chytundebau masnach newydd cysylltiedig", yn benodol mewn ymateb i ddiwedd cyfnod pontio'r UE a COVID-19. Nod y Cynllun Gweithredu yw creu sector allforio cryf, bywiog a chynaliadwy; ysgogi twf allforion Cymru yn y tymor hwy, gan gynyddu'r cyfraniad mae allforion yn ei wneud at economi Cymru; a diogelu swyddi a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â chreu rhai newydd, i bobl yng Nghymru.
- 1.3 Cafodd y Rhaglen ei modelu ar y [Clwstwr Allforio Bwyd a Diod](#) presennol trwy ddod â chwmnïau at ei gilydd i ddatblygu eu capasiti a'u galluoedd yn systematig ar gyfer allforio, a hynny ar sail un-i-lawer ac un-ac-un. Ei ffocws oedd y pum Sector Allforio â Blaenoriaeth i Gymru fel y'u nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, sef:
- Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân
 - Cynhyrchion Defnyddwyr
 - Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
 - Technoleg Feddygol a Diagnosteg
 - Technoleg.
- 1.4 Ar ôl peilot cychwynnol o'r Clwstwr Technoleg Feddygol a Diagnosteg yn 2021/22, cafodd y gwaith datblygu a rheoli clystyrau unigol ei contractio i dri chyflenwr

(partneriaid cyflenwi) am y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Hydref 2024¹ (gyda chynnig i ymestyn am flwyddyn hyd at fis Hydref 2025). Rhoddwyd cyfrifoldeb i bob cyflenwr adnabod a recriwtio busnesau priodol, darparu cymorth amrywiol i'w haelodau clwstwr priodol ledled Cymru, a gweithredu fel 'bwydydd' ar gyfer atgyfeiriadau i raglenni cymorth allforio eraill a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r ecosystem cymorth allforio ehangach yng Nghymru.

1.5 Y cymorth a roddwyd oedd cynnwys amserlen flynyddol o 'weithgareddau' a gynlluniwyd i gyflawni nodau ac amcanion y Rhaglen drwy ddarparu cymysgedd o grwpiau ffocws bach, un-i-lawer i aelodau ac, weithiau, cymorth un-ac-un wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau ar gyfer twf allforio. Roedd disgwyl i'r cymorth gynnwys:

- Dilyniant tuag at allforio (e.e. allforio am y tro cyntaf, ymuno â marchnad newydd, neu gynyddu cyfran o'r farchnad).
- Hwyluso cydweithio busnes masnachol newydd ymhlith grwpiau llai wedi'u targedu, a fyddai'n gyfforddus wrth ymgysylltu'n fasnachol â'i gilydd (e.e. consortia allforio, ac ati).
- Datblygu partneriaethau newydd, rhwydweithiau, deall arloesedd mewn marchnadoedd allweddol, gan alluogi aelodau i sicrhau busnes allforio newydd (gan gynnwys creu allforwyr newydd).
- Adnabod a mynd i'r afael â materion neu heriau allforio cyffredin a wynebwr gan aelodau'r clwstwr (e.e. newidiadau i gytundebau masnach neu newidiadau i reoliadau a phrosesau).
- Datblygu'r galluoedd a'r capasiti i aelodau ar unrhyw gam o'r daith allforio.
- Chwilio am gyfleoedd marchnad sy'n berthnasol i'r clwstwr a manteisio arnynt.

Strwythur yr adroddiad hwn

1.6 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Methodoleg
- Canfyddiadau: Ymgysylltu
- Canfyddiadau: Boddhad ac effeithiolrwydd
- Canfyddiadau: Effaith
- Casgliadau

1.7 Mae Atodiad (A) ar wahân yn cynnwys copi o'r arolwg ar-lein. Ni chafodd yr arolwg ei gyfieithu i'r Gymraeg ar adeg ei ddsbarthu gan fod dewis iaith wedi'i gadarnhau ymlaen llaw ac ni ofynnodd unrhyw gyfranogwyr am y Gymraeg.

¹ Kinetic (Cynhyrchion Defnyddwyr, Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân, Technoleg Feddygol a Diagnosteg), IBDG (Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel) a Tramshed Tech and Impact Innovation (Technoleg).

2. Methodoleg

- 2.1 Cafodd arolwg ar-lein ei ddylunio a'i ddatblygu i gasglu adborth gan fusnesau sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen. Dyluniwyd yr Arolwg mewn cydweithrediad â'r Tîm Masnach a chafodd ei adolygu gyda'r tri phartner cyflenwi clwstwr gan y Tîm Masnach cyn ei lansio.

Dosbarthu'r arolwg

- 2.2 Cynhaliwyd yr Arolwg ar Smart Survey ac fe'i dosbarthwyd trwy e-bost i'r 215 o fusnesau a oedd yn aelodau clwstwr ar ddydd Mercher 8 Mai 2024. Anfonwyd yr e-bost cyntaf ar ddydd Mercher 8 Mai 2024 ac yna e-bost atgoffa i fusnesau nad oeddent wedi cwblhau'r Arolwg ar ddydd Llun 16 Mai 2024. Anfonwyd nodyn atgoffa terfynol ar 23 Mai 2024. Cyflawnwyd cyfradd ymateb derfynol o 80 o fusnesau, sy'n cyfateb i 37% (gan gynnwys un arolwg a ddychwelwyd trwy e-bost), pan gaewyd yr Arolwg ar 11 Mehefin 2024. Yn sgil dilysu data dilynol, gostyngodd y gyfradd ymateb hon i 78 (36%).

Dylunio holiadur

- 2.3 Cynlluniwyd yr Arolwg i gasglu cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol i asesu effeithiolrwydd cyffredinol y cymorth a roddwyd ochr yn ochr ag esboniad o ymatebion a chyfleoedd i ddarparu enghreifftiau. Mae copi o'r Arolwg wedi'i gynnwys ar wahân yn Atodiad A.
- 2.4 Gofynnodd yr Arolwg nifer o gwestiynau amlddewis i gasglu gwybodaeth am gefndir y busnes a oedd yn ymateb (e.e. maint y busnes a hyd yr amser allforio) yn ogystal â'i ymgysylltiad â'r Rhaglen (e.e. pa glwstwr, hyd yr aelodaeth). Mae hyn wedi cefnogi rhywfaint o ddadansoddiad yn ôl gwahanol nodweddion busnes ac ymgysylltu (a gyfyngwyd gan gyfradd ymateb gwahanol is-grwpiau).
- 2.5 Ar ôl gofyn cwestiynau iddynt am gefndir eu busnes, cyfeiriwyd aelodau newydd (y busnesau hynny a ymatebodd y buont yn aelod o'r Rhaglen am chwe mis neu lai) allan o'r Arolwg yn gynnar. Penderfynwyd hyn mewn trafodaeth gyda'r Tîm Masnach am nad oedd disgwyl y byddai aelodau a ymunodd mor ddiweddar wedi cael digon o brofiad o'r clwstwr i roi sylwadau ystyrlon ar y Rhaglen. Cyn cyrraedd tudalen cau'r Arolwg, gofynnwyd dau gwestiwn byr iddynt ar ymgysylltu/effaith (un cwestiwn sylw penagored ac un cwestiwn ar raddfa Likert, gyda thri datganiad yn ymdrin â'u profiad o'r Rhaglen hyd yma).

2.6 Cyfeiriwyd gweddill yr Arolwg at y rhai a oedd wedi cymryd rhan am saith mis neu fwy (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'aelodau sefydledig') a gofynnwyd cyfuniad o gwestiynau ar raddfa Likert a chwestiynau penagored a oedd yn gyfle i roi ymatebion 'Eraill' neu esboniad pellach. Roedd y themâu a drafodwyd yn cynnwys:

- Rhwystrau rhag cyfranogi
- Boddhad gyda'r gwasanaethau a'r gweithgareddau cymorth
- Materion a wynebwyd a boddhad â'u rheolaeth gan y Rhaglen
- Canlyniadau ac effeithiau'r cymorth i fusnesau.

2.7 Gofynnwyd un cwestiwn graddfa symudol (0-10) ynghylch pa mor debygol o argymhell y Rhaglen y byddai ymatebydd.

Cyfyngiadau

2.8 Nod yr arolwg oedd casglu rhai mewnwelediadau amserol i lywio penderfyniadau ynghylch yr opsiwn estyniad ac unrhyw iteriadau dilynol, pe bai'r Rhaglen yn parhau y tu hwnt i'r estyniad. Mae gan arolygon ogwydd ymateb cynhenid ac felly mae'r canlyniadau'n gyfyngedig o ran darparu safbwynt rhai aelodau yn unig (ond nid pob un). Yn ogystal, roedd yr Arolwg yn dibynnu ar ymatebwyr yn dwyn i gof fuddion ar draws nifer o flynyddoedd o gyfranogiad ac yn gofyn iddynt ynysu'r canlyniadau hyn o ffactorau eraill a'u cyfranogiad mewn rhaglenni ehangach. Gan fod llawer o'r aelodau clwstwr hefyd wedi elwa ar gymorth allforio ehangach Llywodraeth Cymru y tu hwnt i'r Rhaglen hon, byddai hyn wedi bod yn arbennig o gymhleth.

2.9 Byddai ymchwil pellach, gan gynnwys ymgynghori ansoddol gyda'r partneriaid cyflenwi a'r aelodau clwstwr, yn cynnig canfyddiadau esboniadol ategol. Y ffordd orau o grisialu'r canlyniadau a gyflawnwyd mewn modd mwy amserol (cefnogi cyfranogwyr i alw i gof) fyddai casglu data yn fwy rheolaidd. Yn gyffredinol, byddai fframwaith gwerthuso cynhwysfawr a gynlluniwyd ochr yn ochr â'r cynllun cyflawni yn gwneud y gorau o gasglu tystiolaeth.

Dadansoddi a chyflwyno canlyniadau

2.10 Cynhaliwyd dadansoddiad meintiol gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol gan ddefnyddio Excel. Dylid gweld y canlyniadau yng nghyd-destun y ffigurau sylfaen bach ar gyfer pob clwstwr. I gefnogi hyn, mae meintiau sylfaen wedi'u darparu ar gyfer yr holl ffigurau a niferoedd ymateb unigol wedi'u cynnwys ar gyfer pob categori mewn graffiau graddfa Likert.

Proffil sampl

- 2.11 Yn ystod y cam dilysu data, cafodd dau ymateb eu dileu o gyfanswm yr 80 o ymatebion gan fod eu sylwadau'n awgrymu nad oeddent yn rhan o'r Rhaglen. Roedd y naill yn darparu ymatebion mewn perthynas â gweithgareddau na chafodd eu cyflwyno gan y Rhaglen ac nid oedd y llall yn ymddangos, o'i ymatebion, i fod yn aelod o'r Clwstwr. Pan dynnwyd ymatebion ar gyfer aelodau newydd (n=11), roedd y 67 ymateb a oedd yn weddill (aelodau sefydledig) a ddefnyddiwyd ar gyfer mwyafrif y dadansoddiad yn cynrychioli 31% o'r holl aelodau.
- 2.12 Fel y dangosir gan Dabl 1, cafodd pob clwstwr gyfanswm ymateb rhwng 30% a 40%. Fodd bynnag, mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys aelodau newydd a nododd eu bod wedi cymryd rhan am chwe mis neu lai. Pan fydd aelodau newydd wedi'u tynnu o'r sampl, mae'r ymateb mwyaf gan unrhyw glwstwr unigol yn cynrychioli 44% o gyfanswm aelodaeth y clwstwr (Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân), a'r lleiaf yw 23% o gyfanswm aelodaeth y clwstwr (Technoleg).

Tabl 1. Ymateb arolwg fesul clwstwr


Clwstwr	Nifer yr aelodau	Aelodau'n ymateb (% o'r aelodau)	Aelodau sefydledig yn ymateb (% o'r aelodau)
Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân	32	14 (44%)	14 (44%)
Cynhyrchion Defnyddwyr	45	18 (40%)	12 (27%)
Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	51	17 (33%)	15 (29%)
Technoleg Feddygol a Diagnosteg	43	16 (37%)	16 (37%)
Technoleg	44	13 (30%)	10 (23%)
Cyfanswm	215	78 (36%)	67 (31%)

Ffynhonnell: Data monitro'r Rhaglen Clwstwr Allforio ac Arolwg Adborth Clystyrau Allforio (2024)

- 2.13 Fel y dangosir yn Ffigur 1, dywedodd mwyafrif (86%) yr ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan yn y Rhaglen am saith mis neu fwy. Cyfeiriwyd aelodau newydd (y rhai a fu'n cymryd rhan am 6 mis neu lai, n=11) allan o'r Arolwg yn gynnar oherwydd

credwyd na fyddai ganddynt brofiad i allu gwneud sylwadau llawn ar effaith y Rhaglen. Ni ofynnwyd iddynt ateb yr un cwestiynau ar ymgysylltu ac effaith.


Ffigur 1: Hyd aelodaeth clwstwr



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

- 2.14 O'r aelodau sefydledig, roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn microfusnesau (46%), roedd ychydig llai na thraean yn fusnesau bach (31%) ac roedd 22% yn fusnesau canolig (Sylfaen: 67).
- 2.15 Fel y dangosir yn Ffigur 2, nododd ychydig dros hanner (54%) yr aelodau sefydledig fod eu busnes wedi allforio ers mwy na phum mlynedd tra nododd 16% nad oeddent wedi allforio o'r blaen (Sylfaen: 67).

Ffigur 2: Profiad allforio'r busnesau a ymatebodd



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024


3. Canfyddiadau: Ymgysylltu

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r Arolwg mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r Rhaglen, rhwystrau rhag cyfranogiad ac ymatebion aelodau newydd (y rhai sy'n cymryd rhan ers chwe mis neu lai). Cynhwysir rhifau sylfaen a chrybwyllir a yw'r ffigurau'n cynnwys aelodau newydd neu aelodau sefydledig.

Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Clwstr Allforio

3.2 Pan ofynnwyd i'r holl ymatebwyr (gan gynnwys aelodau newydd) sut yr oeddent wedi clywed am y Rhaglen, dywedodd dros hanner (59%) iddynt glywed trwy Gynghorydd Masnach Rhyngwladol (ITA) Llywodraeth Cymru, tra bod bron i un rhan o bump (17%) wedi dweud Rheolwr Clwstr. Mae hyn yn awgrymu mai allgymorth uniongyrchol gan y Tîm Masnach a'r partneriaid cyflawni yw'r prif ffordd o ymgysylltu ag aelodau newydd yn y Rhaglen. Ffynonellau 'Eraill' a enwyd oedd Busnes Cymru, Siambr Fasnach a Tramshed (Ffigur 3).

Ffigur 3: Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Clwstr Allforio




Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

Profiadau cynnar o'r Rhaglen gan aelodau newydd

3.3 Cyflwynir ymatebion gan yr un ar ddeg o aelodau newydd a ymatebodd yn Ffigur 4.

Ffigur 4: Canfyddiadau aelodau newydd o'r Rhaglen Clwstwr Allforio



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

3.4 Dengys Ffigur 4 fod mwyafrif yr aelodau clwstwr newydd yn myfyrio'n gadarnhaol ar yr wybodaeth sydd ar gael am y Rhaglen. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr nad oedd yn hollol syml gan ei fod yn "eistedd ar draws dau grŵp". Serch hynny, nododd pob un ohonynt fod y broses gofrestru yn hawdd ac yn syml. Dengys Ffigur 4 fod mwyafrif (wyth) yr un ar ddeg aelod newydd yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau a gweithgareddau'r dyfodol ac adleisiwyd y teimlad hwn mewn sylw gan un aelod o'r clwstwr.

"Edrych ymlaen at fwy o ymgysylltu" Aelod o'r Clwstwr Technoleg

3.5 Er eu bod yn gymharol newydd i'r Rhaglen, cytunodd ychydig dros hanner yr aelodau newydd fod y cymorth a roddwyd wedi cynyddu eu hyder i allforio.


Rhwystrau aelodau sefydledig rhag cyfranogi

3.6 Mae Ffigur 5 yn nodi mai cyfyngiadau adnoddau oedd rhwystr mwyaf 72% o'r aelodau sefydledig rhag cyfranogi. Ymhelaethodd ymatebwyr unigol, gydag un

busnes yn nodi eu bod wedi profi cyfnod ariannol anodd. Soniodd sylwadau eraill am golli digwyddiadau oherwydd “ymrwmiadau eraill”, gan eu bod yn “dîm bach” ac yn brysur yn y gwaith.

“Oherwydd bod cymaint o waith wedi bod gennyf, ychydig iawn o amser neu gyfle a gefais i ymgysylltu’n llawnach â’r Rhaglen.” Aelod o’r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân

Ffigur 5: Rhwystrau rhag cyfranogiad yn y Rhaglen Clwstwr Allforio



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

3.7 Perthnasedd cynnwys digwyddiadau/gweithgareddau clwstwr oedd yr ail rwystr ehangaf rhag cyfranogiad a grybwyllwyd gan ychydig dros ddwy ran o bump o aelodau clwstwr sefydledig (Ffigur 5). Roedd ymatebion i gwestiwn sylw agored yn egluro ymhellach pam nad oedd cynnwys cymorth clwstwr bob amser yn cael ei ystyried yn berthnasol, gyda nifer o ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn teimlo eu bod “yn gweddu’n iawn” i’w clwstwr. Esboniodd dau fusnes fod hyn oherwydd nad oedd eu ffocws busnes yn cyd-fynd â’r cynnwys.

“Mae llawer o’r cyfleoedd i ymgysylltu yn ymwneud â gofal iechyd cyhoeddus / ysbytai, ond rydyn ni’n gwerthu i glinigau preifat a pherchnogion busnes.” Aelod o’r Clwstwr Technoleg Feddygol

“Rydym yn gwmni meddalwedd - mae'r rhan fwyaf o'r ffocws ar eitemau ffisegol, technoleg gwynt neu niwclear - mae'r rhain yn feysydd nad ydym yn rhan ohonynt... mae ein heriau yn wahanol i lawer o'r darparwyr eraill. Felly nid yw pob pwynt trafod yn berthnasol i ni.” Aelod o'r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân

- 3.8 Yn y cyfamser, teimlai ymatebydd arall nad oedd gweithgaredd ei Glwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr “yn benodol i anghenion busnes unigol” ac yn “rhy generig”. Roedd un arall, aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, yn crybwyll efallai mai cynnwys llai perthnasol i rai aelodau oedd y rheswm dros ostyngiad mewn presenoldeb yr oeddent yn teimlo eu bod wedi sylwi arno dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 3.9 Roedd sylw gan un ymatebydd (a fu'n allforio ers dros flwyddyn) hefyd yn amlygu bod angen i gynnwys adlewyrchu lefel arbenigedd aelodau mewn allforio.
- “Rydym yn allforio i ryw 140 o wledydd, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen glwstwr wedi'i hanelu at y rhai sy'n dechrau allforio, neu sy'n dymuno ennill eu plwyf mewn gwlad benodol.” Aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- 3.10 Mae'r sylwadau hyn yn amlygu'r her o ddylunio cymorth mewn fformat 'un i lawer'. Serch hynny, mae'n werth nodi na wnaeth dros hanner yr ymatebwyr grybwyll cynnwys digwyddiadau/gweithgareddau fel rhwystr rhag cymryd rhan.
- 3.11 Dywedodd chwarter yr aelodau sefydledig fod amseriad digwyddiadau/gweithgareddau yn rhwystr iddynt tra bod lleoliad digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi'i nodi fel rhwystr gan leiafrif (16%) o'r ymatebwyr yn unig. Roedd dau ymatebydd yn teimlo bod angen mwy o ddigwyddiadau yng ngogledd Cymru. Dywedodd dau arall hefyd eu bod yn teimlo y gellid cryfhau'r Rhaglen a'r berthynas rhwng aelodau'r clwstwr a chynyddu'r effeithiau gyda mwy o rwydweithio wyneb yn wyneb.
- “Mae'n anodd ymgysylltu â busnesau eraill yn fy nghyfarfodydd clwstwr ar-lein; pan gawsom gyfarfod grŵp personol, cafwyd mwy o drafod ac ymgysylltu mewn diwrnod nag yn y flwyddyn gyfan.” Aelod o'r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân

Casgliadau ymgysylltu

Y ffordd fwyaf cyffredin o gael gwybod am y Rhaglen gan ymatebwyr oedd Cynghorwyr Masnach Rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Nododd aelodau newydd ganfyddiadau cychwynol cadarnhaol o'r Rhaglen, gan gynnwys gwybodaeth a'r broses gofrestru. Ymhlith aelodau sefydledig clystyrau, adroddwyd mai'r rhwystr

ehangaf rhag cyfranogiad oedd cyfyngiadau ar adnoddau: rhywbeth y tu hwnt i reolaeth dylunio rhaglenni. Y rhwystr nesaf a grybwyllwyd ehangaf oedd perthnasedd digwyddiadau a gweithgareddau, er mai dim ond lleiafrif a ddywedodd nad oedd digwyddiadau a marchnadoedd allforio yn berthnasol/o ddiddordeb i'w busnes. Mae'r canfyddiadau'n dangos mai her allweddol wrth ymgysylltu â busnesau yn y Rhaglen yw cydbwysio penodoldeb a gwahaniaethau ym marchnadoedd, cynhyrchion a statws/profiad allforio busnesau.


4. Canfyddiadau: Boddhad

4.1 Mae'r Adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r Arolwg mewn perthynas â boddhad â Rheolwyr Clwstwr, gweithgareddau clwstwr ac a fyddai ymatebwyr yn argymhell y Rhaglen i eraill. Nid yw'n cynnwys aelodau newydd ac mae'n tynnu ar ymatebion yr aelodau sefydledig hynny yn unig.

Boddhad gyda Rheolwyr Clwstwr

4.2 At ei gilydd, dywedodd mwy na 75% o'r ymatebwyr eu bod yn 'fodlon' â chyfathrebu, ymatebolrwydd a hygyrchedd (argaeledd pan fo angen) eu Rheolwr Clwstwr. Mae Ffigur 6 yn dangos mai dim ond un ymatebydd a grybwyllodd anfodlonrwydd, er bod cyfran nodedig wedi nodi difaterwch neu eu bod 'ddim yn gwybod' / 'heb gymryd rhan' mewn gweithgareddau priodol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn yr ymatebion rhwng clystyrau.

Ffigur 6: Boddhad â Rheolwyr Clwstwr



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024


4.3 Pan ofynnwyd iddynt am sylw agored, disgrifiwyd Rheolwyr Clwstwr gan wahanol ymatebwyr fel rhai “parod eu cymwynas a rhagweithiol”, “wedi’u sbarduno gan atebion”, “ymatebol” a “personol a pherthnasol”.

“Maent bob amser yn gymwynasgar iawn ac rwy’n gwybod os oes angen help/cyngor arnom mae’n hawdd ei gael” Busnes y Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

“Maen nhw wedi bod yn hynod gefnogol yn ein taith wrth allforio’n rhyngwladol. Gydag unrhyw help sydd ei angen, byddant yn gwneud mwy na’r disgwyl i gael gwybod.” Busnes y Clwstwr Technoleg

- 4.4 Roedd pob ymateb ond un i’r cwestiwn agored ar Reolwyr Clwstwr yn gadarnhaol. Yr unig her a nodwyd oedd gan aelod o’r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy a Glân, a nododd ei fod yn teimlo nad oedd llawer o rybudd am ddigwyddiadau a bod hyn yn ei gwneud yn anodd iddo gymryd rhan.
- 4.5 Yn gyffredinol roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod eu Rheolwr Clwstwr yn eu deall, a dim ond lleiafrif bach iawn o rai clystyrau oedd â chanfyddiad gwahanol. Pan ofynnwyd iddynt, ar y cyfan, cytunodd 65% o’r ymatebwyr (27% ‘yn gryf’) â’r datganiad ‘Mae’r Rheolwr neu Reolwyr Clwstwr yn deall anghenion fy musnes’. Dim ond 3% (2 ymatebydd) oedd yn anghytuno â’r un datganiad, a dywedodd y gweddill (32%) eu bod ‘heb gytuno nac anghytuno’.
- 4.6 Mae Ffigur 7 yn cymharu ymatebion y clystyrau (dylid bod yn ofalus oherwydd maint seiliau isel). Fe’i cynhwysir fel arwydd o’r gwahaniaeth mewn cytundeb rhwng clystyrau gwahanol o ran eu gwahanol reolwyr.

Ffigur 7: Dealltwriaeth Rheolwyr Clwstwr o anghenion busnes yn ôl clwstwr



Sylfaen: Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân (13), Cynhyrchion Defnyddwyr (12), Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (15), Technoleg Feddygol a Diagnosteg (16), Technoleg (10)

Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024


- 4.7 Yn unol â phositifwydd ehangach tuag at y Rhaglen, pan ofynnwyd cwestiwn caeedig am unrhyw anawsterau, materion neu broblemau wrth ddelio â’u Rheolwr Clwstwr neu’r Rhaglen ehangach, dim ond dau allan o 67 aelod sefydledig a

ymatebodd. Yn syml, dywedodd un, “mae popeth wastad yn cael ei dargedu at dde Cymru, yn enwedig Caerdydd”, sef barn a rannwyd gan un cyfranogwr arall mewn ymatebion ehangach. Roedd yr ymatebydd arall a grybwyllodd broblem yn teimlo nad oedd ei anghenion yn cael eu deall yn iawn, bod ei ddisgwyliadau heb eu bodloni ac nad oedd wedi cael ymateb digonol na phriodol i e-byst. Fodd bynnag, ni adlewyrchwyd y farn honno mewn ymatebion gan unrhyw ymatebydd arall.

Bodddhad gyda gweithgareddau'r clwstwr

4.8 Fel y dangosir gan Ffigur 8, o'r pedwar math o wasanaeth clwstwr a restrir (digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, cymorth un ac un a'r Cylchlythyr Clwstwr), crybwyllodd ymatebwyr y bodddhad ehangaf â digwyddiadau ar-lein. Mae hyn, yn rhannol o leiaf, am mai digwyddiadau ar-lein a gynigiwyd yn bennaf gan y rhaglen. Hefyd, soniodd bron i hanner yr ymatebwyr eu bod yn fodlon â chymorth un i un, sef canfyddiad diddorol o ystyried nad dyma oedd ffocws gwreiddiol y rhaglen. Nododd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr (tri neu lai) anfodlonrwydd gyda phob un o'r pedwar gweithgaredd/gwasanaeth clwstwr.

Ffigur 8: Bodddhad â gweithgareddau clwstwr



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

4.9 Ni nododd unrhyw ymatebwyr eu bod yn anfodlon â'r Cylchlythyr Clwstwr er bod ychydig dros chwarter (25%) yn dweud nad oeddent yn ei ddarllen (sylfaen: 67). Dywedodd un ymatebydd mai ei “fai” ef oedd hyn. Rhannwyd gweddill yr ymatebwyr


bron yn gyfartal gyda 36% yn nodi difaterwch ('ddim yn fodlon nac yn anfodlon') a 39% yn dweud eu bod 'yn fodlon'.

4.10 Mae'r canlyniadau ar gyfer pob gweithgaredd, wedi'u grwpio fesul clwstwr, yn dangos bod lefelau bodlonrwydd, ymgysylltiad a difaterwch a adroddwyd yn amlwg yn amrywio rhwng pob clwstwr ond nad oedd yr un clwstwr yn dangos anfodlonrwydd na lefelau ymgysylltu isel penodol ar draws y tri gweithgaredd. Roedd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn a lefel yr ymateb fesul clwstwr i gyflwyno dadansoddiad o ganlyniadau clwstwr unigol; fodd bynnag, rhannwyd cyfres ddi-enw o ganfyddiadau ar wahân gyda phob Rheolwr Clwstwr i lywio dyluniad Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) diwygiedig ar gyfer y flwyddyn estyniad.

Effeithiolrwydd digwyddiadau clwstwr, ffocws, cyngor a rhwydweithiau

4.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddatgan eu cytundeb â nifer o ddatganiadau yn ymwneud â digwyddiadau clwstwr, cyngor, y rhwydwaith o aelodau'r clwstwr a chynnwys cymorth. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 9.

Ffigur 9: Effeithiolrwydd digwyddiadau, ffocws, cyngor a rhwydweithiau clwstwr



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

4.12 Roedd mwyafrif (70%) yr ymatebwyr yn teimlo bod y cyngor a gawsant drwy eu clwstwr yn gywir tra bod tua dwy ran o dair yn cytuno bod digwyddiadau'n ddiddorol

ac yn effeithiol, bod y marchnadoedd allforio o ddiddordeb a bod y pynciau dan sylw o ddiddordeb/yn berthnasol.

- 4.13 Fodd bynnag, nododd 15% o'r ymatebwyr nad oeddent yn teimlo bod y pynciau dan sylw yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i'w datblygiad allforio, a nododd 24% arall eu bod yn ddifater. Pan ofynnwyd a oedd ganddynt unrhyw argymhellion i wella'r Rhaglen, awgrymodd un ymatebydd y gellid gwella perthnasedd digwyddiadau wrth i aelodau cael eu cynnwys yn ehangach:

“Byddai arolwg byr ar ôl pob sesiwn i fesur boddhad a pherthnasedd yn adborth defnyddiol. Byddai gofyn i aelodau holi am bynciau yn gwella ymgysylltiad a pherthnasedd efallai.” Aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

- 4.14 Dim ond 6% oedd yn anghytuno i raddau fod y digwyddiadau a'r gweithgareddau a gyflwynir yn ddiddorol ac effeithiol gydag is-set o 3% (dau ymatebydd) yn anghytuno 'yn gryf'. Roedd yr anghytundeb wedi'i ledaenu ar draws pedwar clwstwr ac felly ni ellir ei esbonio trwy un digwyddiad neu ddull cyflwyno. Esboniodd un ymatebydd a adroddodd ddifaterwch fod hyn yn gysylltiedig ag un digwyddiad nad oedd yn cyflawni ei ddisgwyliadau.

“Nid oedd un sesiwn ar-lein yn arbennig o addysgiadol o gwbl. Bu'n rhaid i'r cyflwynydd gymryd lle rhywun arall. Nid oedd y gwaith paratoi a'r cynnwys wedi bodloni fy nisgwyliadau” Aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

- 4.15 Yn gyffredinol, ar gyfer nifer o ddatganiadau, nododd cyfrannau sylweddol o'r ymatebwyr eu bod 'heb gytuno nac anghytuno'. Dywedodd dros draean o'r ymatebion eu bod 'heb gytuno nac anghytuno' â'r datganiadau ynghylch digwyddiadau diddorol ac effeithiol a bod busnesau eraill yn ddefnyddiol i'w hadnabod. Dywedodd un ymatebydd, a fu'n cymryd rhan ers dros flwyddyn, ac a atebodd 'heb gytuno nac anghytuno' nifer o weithiau, ei fod yn cael cyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu. Efallai bod hyn wedi cyfrannu at ei ddifaterwch.


“Ychydig iawn o ymgysylltu sydd wedi bod ac ychydig iawn o ddigwyddiadau sydd wedi bod, felly mae'n anodd gwneud ymatebion penodol.” Aelod o'r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân

- 4.16 Mae'n bosibl bod difaterwch sylweddol yn cyfateb i'r diffyg ymgysylltu a adroddwyd mewn ymateb i gwestiynau eraill.

- 4.17 Fel y dangosir gan Ffigur 9, ar y cyfan, cytunodd 48% o'r ymatebwyr i ryw raddau bod busnesau eraill o fewn eu clwstwr yn 'ddefnyddiol eu hadnabod ac ymgysylltu â

nhw.". Dywedodd 40% eu bod 'heb gytuno nac anghytuno', roedd lleiafrif bach (12%) yn 'anghytuno' i ryw raddau, gan nodi nad oeddent yn teimlo bod adnabod yr aelodau eraill yn ddefnyddiol. Dadansoddir ymatebion i'r datganiad hwn fesul clwstr yn Ffigur 10. Er gwaethaf cyfraddau ymateb isel wrth ddadansoddi, mae hyn yn rhoi arwydd pellach o'r gwahaniaethau mewn ymatebion, gan atgyfnerthu'r angen i'r Tîm Masnach ystyried dyfodol pob clwstr yn unigol.

Ffigur 10: Defnyddioldeb busnesau eraill o fewn clystyrau fel y canfyddir gan aelodau



Sylfaen: Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân (14), Cynhyrchion Defnyddwyr (12), Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (15), Technoleg Feddygol a Diagnosteg (16), Technoleg (10)

Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

4.18 Mae Ffigur 10 yn dangos bod y cytundeb isaf â'r datganiad hwn wedi dod o'r Clwstr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel gyda dim ond tri o'r 15 aelod (20%) yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol ymgysylltu â busnesau eraill yn eu clwstr. Pwysleisiodd un aelod o'r Clwstr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ei fod wedi elwa ar y dysgu a'r rhannu o fewn y rhwydwaith.

"Rwyf wedi elwa ar rannu a dysgu am brofiadau pobl eraill am ei fod yn lliniaru potensial arwahanrwydd mewn marchnad arbenigol iawn" Aelod o'r Clwstr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

- 4.19 O fewn yr un clwstwr, teimlai aelod gwahanol fod presenoldeb mewn digwyddiadau wedi gostwng dros y flwyddyn diwethaf ac y gellid sicrhau gwell gwerth drwy gronfa ehangach o aelodau.
- 4.20 Yn y cyfamser cafodd y cytundeb uchaf â'r datganiad am fusnesau eraill ei ddangos gan aelodau'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr (67%). Mae'n ymddangos bod rhai clystyrau yn cael eu hystyried yn rhwydweithiau mwy defnyddiol nag eraill gan eu haelodau ond mae hyn hefyd yn ymddangos yn benodol iawn i fusnesau unigol.
- 4.21 Dim ond lleiafrif bach o bob clwstwr a ddywedodd eu bod yn anghytuno bod aelodau eraill yn ddefnyddiol i'w hadnabod ac ymgysylltu â nhw a dim ond un a anghytunodd yn 'gryf'. Fodd bynnag, o'i gyfuno â'r gyfran a arhosodd yn niwtral, mae'n ymddangos bod sicrhau bod pob aelod yn teimlo'n rhan o rwydwaith buddiol yn her i bob clwstwr.

Awgrymiadau ar gyfer gwella

- 4.22 Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer gwella effeithiolrwydd y Rhaglen, rhai ar ddiwedd yr Arolwg pan ofynnwyd yn benodol iddynt wneud hynny a rhai mewn ymateb i gwestiynau cynharach. Rhestrir awgrymiadau isod (a gynigiwyd gan ymatebwyr unigol oni nodir yn wahanol).

Awgrymiadau ymatebwyr ar gyfer gwella

- Mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb (pedwar cyfeiriad gan aelodau o bedwar clwstwr gwahanol) gan gynnwys awgrym ar gyfer teithiau o amgylch cyfleusterau "e.e. prifysgol neu Hwb Gwyddorau Bywyd neu aelod gwmni neu gwmni tebyg". (aelod o'r Clwstwr Technoleg Feddygol a Diagnosteg)
- Mynd ati i rannu a hyrwyddo deunyddiau sesiwn sydd ar gael ar-lein (ar ôl digwyddiadau) ar gyfer mynediad gan y rhai na allant fod yn bresennol.
- Efallai y bydd clystyrau ychwanegol "yn golygu ein bod ni'n ffitio'n well nag ydym ar hyn o bryd". Aelod o'r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân
- Cynyddu aelodaeth clwstwr a/neu gyfranogiad cynyddol aelodau presennol (mwy nag un aelod).
"Mae'n teimlo fel petai'n llawer mwy gwerthfawr i Lywodraeth Cymru pe bai'r pwll clwstwr yn cael ei ehangu neu pe bai mwy o'r aelodau presennol yn cymryd rhan. Byddai hefyd yn gwneud y sesiwn yn fwy diddorol drwy gael mwy o gwmnïau i gyfrannu yn ystod y sesiynau." Aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Galwadau ffôn gyda Rheolwyr Clwstwr i wella dealltwriaeth o anghenion busnes a hyrwyddo cyfleoedd cysylltiedig sydd ar gael i aelodau.
- "Ystyried Lloegr fel marchnad allforio" a chydlynu cenadaethau yno er mwyn manteisio ar "gyfleoedd allforio hawdd yn gyntaf".

Casgliadau boddhad

Mae'r canlyniadau'n dangos boddhad eang gyda Rheolwyr Clwstwr a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt, gydag amryw o ymatebwyr yn canmol ymatebolrwydd a chefnogaeth eu Rheolwr Clwstwr. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd fod eu clwstwr wedi bod yn effeithiol wrth gyflwyno digwyddiadau diddorol, darparu cyngor cywir a defnyddiol ac ymdrin â phynciau a marchnadoedd perthnasol ac o ddiddordeb.

Mae'r ymatebion yn nodi lefelau amrywiol o ymgysylltu a boddhad â gwahanol weithgareddau gan aelodau o wahanol glystyrau. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried eu bod wedi cael eu darparu gan wahanol bartneriaid cyflenwi. Roedd hyn yn cynnwys cyfrannau arbennig o amrywiol o glystyrau gwahanol yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol adnabod busnesau eraill yn eu clwstwr ac ymgysylltu â nhw (mewn un clwstwr roedd hyn yn eithaf isel).

Nododd cyfran sylweddol o'r ymatebion ddiffyg ymrwymiad naill ai i gytuno neu anghytuno â sawl datganiad gwahanol ynghylch boddhad, effaith ac effeithiolrwydd. Mewn rhai achosion, gall diffyg ymgysylltiad neu ymgysylltiad cyfyngedig â rhai gweithgareddau esbonio'r ymatebion niwtral (sy'n nodi 'heb gytuno nac anghytuno').

Dim ond gan lai na llond llaw o ymatebwyr ym mhob achos y rhoddwyd ymatebion negyddol, gan nodi anfodlonrwydd, aneffeithiolrwydd neu faterion/anawsterau gyda'r Rhaglen, ac roedd y rhain wedi'u dosbarthu ar draws clystyrau (yn hytrach na'u crynhoi mewn un). Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach fod ymatebwyr yn gyffredinol yn fodlon â'r Rhaglen a'i heffeithiolrwydd.


5. Canfyddiadau: Effaith

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r Arolwg mewn perthynas â'r effeithiau a nodwyd gan aelodau sefydledig yn ymateb i'r Arolwg. Nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at aelodau newydd.

Canlyniadau ac effeithiau cyffredinol

5.2 Fel y dangosir gan Ffigur 11, pan ofynnwyd pa rai o restr o ganlyniadau yr oedd ymatebwyr wedi'u cyflawni yn sgil cymryd rhan yn y Rhaglen, y manteision mwyaf cyffredin oedd nodi cyfleoedd newydd yn y farchnad (42%) a gwelliannau i'w strategaeth/cynllun allforio (39%).

Ffigur 11: Canlyniadau ac effeithiau'r Rhaglen Clwstwr Allforio i fusnesau



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

5.3 Pan ofynnwyd (cwestiwn agored) iddynt i esbonio sut arweiniodd cyfranogiad yn y Rhaglen at ganlyniadau i'w busnes, cyfeiriodd chwech o'r pymtheg a ymatebodd mewn rhyw ffordd at ennill gwybodaeth neu ddysgu o ddigwyddiadau'r clwstwr.

“Roedd y sesiynau wyneb yn wyneb yn fy ngalluogi fel perchennog busnes i ofyn y cwestiynau cywir ar yr adeg gywir”. Aelod o'r Clwstwr Technoleg

“Rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau sy'n cwmpasu tir mawr Ewrop, yr Unol Daleithiau a'r Dwyrain Pell. Bu'r rhain yn hanfodol wrth wneud cyflwyniadau allweddol, dysgu am y cyfleoedd a'r heriau ymarferol... mae'r rhain yn ffyrdd effeithiol iawn o adeiladu gwybodaeth, rhwydweithiau a lleihau risgiau ystyried a datblygu mynediad cychwynnol”. Aelod o'r Clwstwr Technoleg
Feddygol a Diagnosteg

“Roedd digwyddiadau clwstwr allforio yn ddefnyddiol wrth ennill gwybodaeth am wahanol bynciau yn ymwneud ag allforion ac mae hyn yn datrys llawer o broblemau o ran graddio eich cynnig cynnyrch”. Aelod o'r Clwstwr Technoleg.

- 5.4 Mewn ateb i'r un cwestiwn, cyfeiriodd chwe ymatebydd hefyd at ganlyniadau yn deillio o gysylltiadau a chyfeirio oedd wedi'u darparu trwy'r clwstwr, gan gynnwys “mewn ymweliadau gwlad... ac asesiad mynediad i'r farchnad”, a “chael cyfleoedd fel Medical Alley”.

“Roedd dod o hyd i'r Dosbarthwr cywir yn ymdrech gyfun mewn gwirionedd rhwng ein trafodaethau gyda'n Rheolwr Clwstwr Allforio ac wedi hynny mynychu Sioe Fasnach yn Ewrop gyda chymorth grant OBDV [Datblygu Busnes Tramor].”
Aelod o'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr

- 5.5 Priodolwyd canlyniadau i fanteision rhwydweithio â busnesau eraill hefyd (cyfeiriwyd atynt yn benodol gan bedwar ymatebydd pan ofynnwyd iddynt roi esboniad am y canlyniadau a gawsant).

“Pan gawsom gysylltiad â chwmnïau eraill, bu'n ddefnyddiol iawn clywed eu straeon ac yn bwysig iawn teimlo nad ydyn ni ar ein pennau ein hunain yn yr heriau y mae busnesau'n eu hwynebu ar hyn o bryd ers Brexit yn ogystal â materion eraill fel costau morgludiant uwch.” Aelod o'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr

“Yn syml, yr ymwybyddiaeth o heriau pobl eraill a'r ymdeimlad o botensial am help hyd yn oed os nad wyf wedi manteisio ar hyn eto” Aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

- 5.6 Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod eu Rheolwr Clwstwr yn ffactor allweddol o ran y budd a gânt o'r Rhaglen. Crybwyllwyd hyn gan dri wrth gyfeirio at y cwestiwn a

drafodwyd uchod, yn ogystal â nifer o ymatebwyr eraill drwy gydol eu hymatebion i'r arolwg.


“Rydyn ni wedi teimlo ein bod ni'n cael ein cefnogi'n fawr gan [enw Rheolwr Clwstwr] a'i gydweithwyr i geisio ein cefnogi i oresgyn yr heriau a darparu cyfleoedd a chyllid anhygoel i'n helpu i dyfu ein marchnad allforio eto”. Aelod o'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr

“Roedd yn ddefnyddiol gweithio gyda'r Rheolwr Clwstwr Allforio i ddatblygu ein Strategaeth Allforio a symleiddio ein nodau i'w gwneud yn haws eu cyrraedd. Bellach mae gennym Ddosbarthwr Ewropeaidd yn [gwlad Ewropeaidd] sy'n hanfodol i allu masnachu yn Ewrop gyda chynhyrchion persawrus ar ôl Brexit. “ Aelod o'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr

Disgwyliadau a manteision y Rhaglen

5.7 Dengys Ffigur 12, er bod mwyafrif (60%) aelodau'r clwstwr yn teimlo bod y Rhaglen yn cyflawni eu disgwyliadau, dywedodd cyfran is (45%) fod y Rhaglen wedi bod yn fuddiol o ran eu datblygiad allforio.

Ffigur 12: Disgwyliadau a buddion o ran y Rhaglen Clwstwr Allforio



Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

5.8 Dywedodd bron i hanner (45%) yr ymatebwyr eu bod 'heb gyntuno nac anghytuno' bod y Rhaglen wedi bod yn fuddiol ac roedd 11% yn teimlo nad oedd wedi bod yn fuddiol. Eglurodd rhai ymatebwyr pam eu bod yn teimlo nad oeddent eto wedi elwa ar y Rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys diffyg ymgysylltiad â'r Rhaglen ar ran eu busnes hyd yma.

“Nid bai'r Clwstwr yw'r diffyg cyflawniad hyd yma; mae o ganlyniad i ddiffyg amser a ffocws a fuddsoddi yn y Clwstwr gan [enw busnes yr ymatebwr]... fodd bynnag, gallai hyn newid pe bai [cyfeiriad at y busnes wedi'i ddileu] yn buddsoddi amser ac ymdrech yn y clwstwr”. Aelod o'r Clwstwr Technoleg Feddygol a Diagnosteg

“Mae'n deg dweud nad ydw i eto wedi mynychu digon o sesiynau i wireddu manteision amlwg y rhaglen hon.” Aelod o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

- 5.9 Rheswm arall a roddwyd dros beidio ag elwa ar y Rhaglen oedd sefyllfa bresennol cwmnïau ymatebwyr a'r cam yr oeddent wedi'i gyrraedd yn eu cynllun datblygu allforio.

“Mae braidd yn gynnar i ni o ystyried ein strategaeth”. Aelod o'r Clwstwr Technoleg Feddygol a Diagnosteg


“Nid ydym wedi cael y budd llawn eto, ond mae'r cymorth a gafwyd yn rhoi hyder i ni y byddwn yn llwyddiannus gyda'n cynllun allforio.” Aelod o'r Clwstwr Technoleg Feddygol a Diagnosteg

“Rydyn ni'n dal i geisio cynyddu ein cyfran allforio ar ôl Brexit a wnaeth ein rhwystro ni'n fawr. Hyd yn hyn, nid yw hyn wedi trawsnewid yn welliant nodedig ond rydym yn ymwybodol iawn o'r camau y mae angen i ni eu cymryd ac yn benodol sut y gall y clwstwr allforio a Llywodraeth Cymru ein helpu i gyflawni hyn ac rydym yn bwriadu gweithredu'r pethau hynny o ddifrif dros y 6 mis i flwyddyn nesaf.” Aelod o'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr

Mwy o hyder i allforio

- 5.10 At ei gilydd, dywedodd 51% o aelodau'r clwstwr eu bod yn 'cytuno' (42%) neu'n 'cytuno'n gryf' (9%) bod y Rhaglen wedi cynyddu eu hyder i allforio (sylfaen: 67). Dim ond dau ymatebydd (3%) oedd yn anghytuno bod y Rhaglen wedi cynyddu eu hyder i allforio ac roedd cyfran sylweddol (46%) 'heb gytuno nac anghytuno'. Roedd ymatebion yn amrywio rhywfaint yn ôl aelodaeth clwstwr, hyd yr amser allforio a maint y busnes, fel y dangosir yn Ffigurau 13 i 15. Mae'r Ffigurau hyn wedi'u cynnwys fel arwydd o wahaniaethau ond dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau oherwydd cyfraddau ymateb bach grwpiau is-set.

Ffigur 13: Canlyniad mwy o hyder i allforio yn ôl aelodaeth clwstwr




Sylfaen: Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân (14), Cynhyrchion Defnyddwyr (12), Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (15), Technoleg Feddygol a Diagnosteg (16), Technoleg (10)

Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

- 5.11 Aelodau o'r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân a'r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr a ddywedodd ehangaf fod y Rhaglen wedi cynyddu eu hyder i allforio. Aelodau o'r Clwstwr Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a grybwyllodd ehangaf eu bod 'heb gytuno nac anghytuno' a hwythau hefyd oedd â'r cytundeb isaf a grybwyllwyd fod y Rhaglen wedi cynyddu eu hyder i allforio.
- 5.12 Dengys Ffigur 14 fod ymatebwyr microfusnesau a busnesau bach wedi dangos cytundeb ychydig yn ehangach a chryfach fod y Rhaglen wedi cynyddu eu hyder i allforio o'u cymharu â busnesau canolig.

Ffigur 14: Canlyniad mwy o hyder i allforio yn ôl maint busnes



Sylfaen: micro (31), bach (21), canolig (15)


Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

- 5.13 Yn y cyfamser mae Ffigur 15 yn dangos bod y busnesau hynny nad oeddent wedi allforio o'r blaen wedi adrodd yn ehangach am fwy o hyder i allforio (oherwydd y

Rhaglen) o’u cymharu â’r rhai a oedd eisoes wedi allforio. Hwn hefyd oedd canfyddiad un ymatebydd a oedd wedi bod yn allforio am fwy na phum mlynedd. Er ei fod yn gyffredinol fodlon â’r Rhaglen, roedd ‘heb gytuno nac anghytuno’ bod y Rhaglen wedi cynyddu ei hyder ac roedd yn teimlo bod:

“[y Rhaglen] yn ddefnyddiol i fusnesau sy’n newydd i allforio” Aelod o’r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr

Ffigur 15: Mwy o hyder i allforio, yn ôl profiad allforio’r busnes sy’n ymateb




Sylfaen: heb allforio o’r blaen (11), wedi allforio am lai na 3 blynedd (14), wedi allforio am 3-5 mlynedd (6), wedi allforio am fwy na 5 mlynedd (36)

Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

- 5.14 Fodd bynnag, nid yw’r canlyniadau a ddangosir yn Ffigur 15 yn dangos llai o adrodd am fwy o hyder (o ganlyniad i’r Rhaglen) ymhlith y rhai sydd â’r profiad allforio hiraf. Yn arbennig, er gwaethaf eu profiad allforio, dywedodd 44% o’r rhai a oedd yn allforio ers mwy na phum mlynedd fod y Rhaglen wedi cynyddu eu hyder i allforio.
- 5.15 Mae Ffigur 16 yn dangos bod hyd yn oed aelodau newydd a gymerodd ran am chwe mis neu lai wedi dweud bod mwy o hyder i allforio oherwydd cymryd rhan yn y Rhaglen.

Ffigur 16: Mwy o hyder i allforio yn ôl amser a dreuliwyd yn cymryd rhan yn y Rhaglen Clwstwr Allforio



Sylfaen: 0-3 mis (5), 4-6 mis (6), 7-12 mis (20), mwy na blwyddyn (47)


Ffynhonnell: Arolwg Adborth Clystyrau Allforio 2024

Ar y cyfan, dywedodd 50% o aelodau newydd eu bod wedi magu hyder i allforio. Mae hyn yn dangos na ddylid tanbriso canlyniadau cynnar cael cymorth.

Tebygolrwydd o argymell y Rhaglen Clwstwr Allforio

5.16 Mae Ffigur 17 yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fwy tebygol na pheidio o argymell y Rhaglen i gwmni arall.

Ffigur 17: Tebygolrwydd aelodau o argymell y Rhaglen



- 5.17 Darparodd nifer fach iawn (llai na dau aelod ym mhob clwstwr) ymateb llai na phump, gan adlewyrchu lleiafrif tebyg a nododd anfodlonrwydd a lefelau isel o effaith mewn ymateb i gwestiynau a drafodwyd yn flaenorol.
- 5.18 Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar y Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS); ei brif amcan yw casglu teyrngarwch cwsmeriaid (fel y profir trwy ailbrynu ac atgyfeirio) i gynnyrch, gwasanaeth, brand neu gwmni ar sail un cwestiwn arolwg. Mae'r ymatebion yn diffinio ymatebwyr naill ai fel 'Bychanwyr' (0-6), 'Goddefwyr' (7 ac 8) neu 'Hyrwyddwyr' (9 a 10). Yn seiliedig ar y dehongliad hwn:²
- Byddai 37% o ymatebwyr arolwg y Rhaglen Clwstwr Allforio yn cael eu hystyried yn 'hyrwyddwyr', a selogion ffyddlon sydd â photensial uchel i gefnogi twf yn y Rhaglen trwy ei chanmol a'i hargymell i eraill.
 - Byddai 36% o ymatebwyr arolwg y Rhaglen Clwstwr Allforio yn cael eu hystyried yn 'oddefwyr' ac, er eu bod yn gwsmeriaid bodlon, ystyrir nad ydynt wedi ymrwymo llawn cymaint i'r Rhaglen ac mae'n debygol y bydd atgyfeiriadau yn amodol a llai brwdfrydig.
 - Byddai 27% o ymatebwyr arolwg y Rhaglen Clwstwr Allforio yn cael eu hystyried yn 'fychanwyr' a allai gynnwys cwsmeriaid anfodlon â'r potensial i rybuddio cwsmeriaid newydd yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn fodlon siarad ar ran y Rhaglen ac sy'n annhebygol o gyfeirio o gwbl.
- 5.19 Cyfrifir y sgôr NPS ei hun trwy dynnu'r 'bychanwyr' oddi wrth yr 'hyrwyddwyr', cyn rhannu â chyfanswm yr ymatebwyr. Mae llusoi'r canlyniad â 100 yn arwain at sgôr rhwng -100 a +100.

$$\text{NPS} = \frac{\text{Hyrwyddwr} - \text{Bychanwr}}{\text{Cyfanswm yr ymatebwyr}} \times 100$$

- 5.20 Mae canlyniadau'r arolwg yn rhoi sgôr o 10.³ Mae hyn yn rhoi meincnod ar gyfer cymharu canlyniadau arolwg ar gyfer y Rhaglen yn y dyfodol. Mae rhai ffynonellau wedi honni bod crewyr NPS, Bain & Company, yn awgrymu bod sgôr rhwng 0 ac 20

² Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein: [Net Promoter Score \(NPS\) & System | Bain & Company](#)

³ $((25-19)/68) * 100$

yn “dda”, gyda dros 20 yn “ffafriol”, dros 50 yn “rhagorol”, a thros 80 “o’r radd flaenaf”.⁴

Casgliadau effaith

Y canlyniadau a grybwyllwyd ehangaf yn sgil y Rhaglen oedd nodi cyfleoedd marchnad newydd a gwelliannau i strategaeth/cynlluniau allforio busnesau. Dim ond lleiafrif bach iawn o’r ymatebwyr a nododd gynyddu eu cyfran bresennol o’r farchnad allforio a chynyddu lefel eu hallforion/trosiant allforio o ganlyniad i’w cyfranogiad. Byddai ymchwil bellach yn fuddiol i ganfod effeithiau tymor hir cymorth i fusnesau.

Mae’n ymddangos mai’r prif ffactorau cyflenwi yr ystyrir eu bod wedi cefnogi canlyniadau yw’r wybodaeth a ddarperir gan ddigwyddiadau, cyfeirio at gyfleoedd ehangach, trafodaethau gydag aelodau clwstwr eraill a’r Rheolwr Clwstwr. Nododd tystiolaeth ansoddol fod y Rhaglen wedi bod yn ddefnyddiol wrth roi cyfleoedd i ennill gwybodaeth i ateb cwestiynau allweddol a datrys problemau mewn modd amserol, cael cyflwyniadau ac ymdeimlad o gymuned fusnes ehangach a nodi cyfleoedd datblygu ehangach.

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr o’r farn bod y Rhaglen yn cyflawni disgwyliadau, mae’r bwch rhwng hyn a’r llai o adrodd am fuddion yn faes i ymchwilio ymhellach iddo. Mae esboniadau posibl yn cynnwys ymgysylltu prin â’r Rhaglen hyd yma ac oedi amser cyn gwireddu buddion wrth i aelodau ddechrau ar strategaethau datblygu allforio tymor hwy. Gallai cymharu canlyniadau ar gyfer clystyrau unigol ag amllder y digwyddiadau a gydlynwyd, lefelau ymgysylltu a hyd yr aelodaeth gynnig rhai mewnwelediadau diddorol.

Mae’r hyder cynyddol a grybwyllwyd yn awgrymu bod y rhai sydd wedi elwa ehangaf o’r Rhaglen yn cynnwys micro-fusnesau a busnesau canolig, aelodau o’r Clwstwr Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân a’r Clwstwr Cynhyrchion Defnyddwyr yn ogystal â busnesau nad ydynt wedi allforio o’r blaen.

Mae’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr sy’n nodi y byddent yn argymhell y Rhaglen i fusnesau eraill yn atgyfnerthu canfyddiadau cadarnhaol ehangach o’r Rhaglen a lefelau bodlonrwydd.

⁴ [What is a Good Net Promoter Score \(NPS\)? - Qualtrics](#)

6. Casgliadau

- 6.1 Mae'r Arolwg wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod y Rhaglen wedi bodloni mwyafrif y busnesau sy'n ymateb i'r Arolwg yn fras. Ystyrir yn helaeth ymhlith y cyfranogwyr fod ei digwyddiadau, ei chynghor a'i Rheolwyr Clwstwr yn effeithiol. Mae'r gwahanol ganfyddiadau a ddangoswyd gan ymatebwyr ar draws clystyrau yn nodi bod angen i'r Tîm Masnach ystyried y canlyniadau ar sail clwstwr wrth ystyried anghenion a chyfeiriad pob clwstwr yn unigol.
- 6.2 Nodwyd rhwystrau cyfyngedig rhag cyfranogiad busnesau sydd o fewn rheolaeth neu ddylanwad y Tîm Masnach. Serch hynny, mae'n bwysig ystyried rhwystr cyfyngiadau adnoddau wrth ragweld lefelau cyfranogi a chynllunio digwyddiadau yn y dyfodol, yn benodol eu fformat a'r rhybudd a roddir ymlaen llaw. Mae angen cydbwysu hyn â cheisiadau am ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, ac adroddiadau am effeithiau mwy gan y rhain. Mae'r dull hybrid a ddarperir ar hyn o bryd gan rai clystyrau yn fuddiol wrth geisio lleihau'r baich ar fusnesau tra hefyd yn caniatáu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'n anochel nad yw'r dull hwn yn gallu bodloni dewis pob busnes.
- 6.3 Mae perthnasedd canfyddedig gweithgareddau hefyd yn cael ei ystyried yn rhwystr rhag ymgysylltu. Yn yr un modd, mae hefyd yn her cwrdd ag anghenion pob busnes o ran cynnwys pan fydd y rhai ar draws pob clwstwr yn amrywio nid yn unig o ran cynhyrchion a marchnadoedd ond hefyd maint busnes, statws allforio a phrofiad.
- 6.4 Mae'r gwahaniaethau yn effeithiolrwydd canfyddedig rhwydwaith pob clwstwr yn atgyfnerthu y dylai'r canlyniadau gael eu hystyried fesul clwstwr gan y Tîm Masnach a Rheolwyr Clwstwr. Dylai hyn lywio penderfyniadau ynghylch eu datblygiad aelodaeth yn y dyfodol i sicrhau bod cyfansoddiad y rhwydweithiau wedi'i optimeiddio ar gyfer rhannu a thrafodaethau buddiol. Mae hyn yn hanfodol gan fod canfyddiadau ynghylch perthnasedd aelodau eraill yn debygol o fod â goblygiadau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol.
- 6.5 Awgryma canlyniadau'r Arolwg y bu'r Rhaglen yn effeithiol wrth gefnogi nodi cyfleoedd marchnad newydd a gwelliannau i strategaethau allforio busnes ar gyfer bron i ddwy ran o bump o'r ymatebwyr. Llwyddodd hefyd i wella hyder i allforio hanner y busnesau a holwyd. Mae'n bosibl mai dim ond canlyniadau cynnar cyfranogiad yw'r rhain ac y gallai effeithiau pellach ddilyn i fwy o fusnesau pan fyddant wedi cael mwy o amser i wireddu buddion y cymorth. Dylid archwilio hyn mewn unrhyw ymchwil i'r Rhaglen yn y dyfodol.

- 6.6 Ar hyn o bryd, gall mynychder y canlyniadau a grybwyllwyd, neu eu diffyg mewn rhai achosion, helpu i benderfynu sut y dylid marchnata'r Rhaglen a'i disgrifio i ddarpar aelodau. Hefyd dylid ystyried y canlyniadau hyn, a'r amser y gallai ei gymryd i'w cyflawni, wrth ddatblygu unrhyw DPA yn y dyfodol.
- 6.7 Daw'r casgliadau hyn o ganlyniadau arolwg o fuddiolwyr yn unig, heb unrhyw fewnbwn gan y rhai sy'n rheoli ac yn darparu'r Rhaglen. Er mwyn deall y Rhaglen a'r dystiolaeth a gasglwyd yn well ac i wneud penderfyniadau gwybodus am ei dyfodol, dylid ymgynghori â phartneriaid cyflenwi hefyd. Yn gyffredinol, byddai bwrw ymlaen ag unrhyw fersiwn o'r Rhaglen yn y dyfodol yn elwa ar fonitro a chasglu tystiolaeth yn fwy systematig.
- 6.8 Byddai fframwaith monitro a gwerthuso sydd wedi'i ddylunio'n strategol yn ddefnyddiol ar gyfer sicrhau argaeledd data amserol ac addysgiadol tra hefyd yn parhau i geisio lleihau'r baich ar fusnesau. Byddai ffurflenni adborth wedi'u cyd-gynllunio, ynghyd ag amserlen o gasglu data ansoddol (gan gynnwys ymgynghori â buddiolwyr a phartneriaid cyflenwi a dadansoddi data monitro) yn helpu i grisialu canlyniadau ac effeithiau tymor byr i dymor hwy a chefnogi cyfranogwyr i alw'r buddion i gof. Dylid cynllunio fframwaith o'r fath ochr yn ochr â datblygu unrhyw fersiynau o'r Rhaglen yn y dyfodol ac mewn cydweithrediad â phartneriaid cyflenwi, cyfranogwyr a rhaglenni Cymorth Allforio ehangach Llywodraeth Cymru.